# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion FIN(3)-01-10

**Dyddiad: Dydd Mercher 20 Ionawr 2010**
**Amser: 09.30 - 11.55**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Andrew Davies, Gorllewin Abertawe
Chris Franks, Canol De Cymru
Brian Gibbons, Aberafan
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Nick Ramsay, Sir Fynwy
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

John Grimes, Clerc
Catherine Hunt, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

### Eitem 2(i)

Bryn Davies, Colegau Cymru
Chris Jones, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
Chris Llewelyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Phil Whitcombe, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau
Frank Ciccotti, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
Greg Walker, Addysg Uwch Cymru

### Eitem 2(ii)

Philip Gummett, Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
David Blaney, Cyfarwyddwr Datblygu Strategol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Richard Hirst, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

### 1. Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

### 2(i). Ymchwiliad i gyllido addysg ôl-16, addysg bellach ac addysg uwch - tystiolaeth lafar

Papurau:
Papur FIN(3)-01-10(p1) - Colegau Cymru
Papur FIN(3)-01-10(p2) - Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Papur FIN(3)-01-10(p3) - Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau / Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
Papur FIN(3)-01-10(p4) - Addysg Uwch Cymru

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn dilyn cais gan y Pwyllgor.

2.3 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y tystion.

### Camau i'w cymryd

Mr Llewelyn i ddarparu nodyn ar orwelion cynllunio CLlLC ar gyfer cyllido addysg.

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y tystion yn gofyn iddynt amlinellu unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch y strwythur cyllido ar gyfer addysg ôl-16 ac addysg bellach.

Mr Davies i ddarparu gwybodaeth ynghylch y mesurau effeithlonrwydd a ddefnyddir gan golegau, yn enwedig ffigyrau meincnodi.

### 2(ii). Ymchwiliad i gyllido addysg ôl-16, addysg bellach ac addysg uwch - tystiolaeth lafar gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Papur FIN(3)-01-10(t5)

2.4 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

2.5 Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn dilyn cais gan y Pwyllgor.

### Cam i'w gymryd

Y Cadeirydd i ysgrifennu at yr Athro Gummett yn amlinellu'r ffigyrau y cyfeiriwyd atynt gan Chris Franks.

### 3. Goblygiadau ariannol Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch Taliadau

Papur FIN(3)-01-10(t7)

3.1 Trafododd y Pwyllgor oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig, a chytunodd i wahodd y Llywydd i ddod i gyfarfod yn y dyfodol i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol.

### Cam i'w gymryd

Y Cadeirydd i wahodd y Llywydd i ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

### Papur i'w nodi

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd
Papur: FIN(3)-23-09(cof)

### Gwasanaeth y Pwyllgorau